


RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
57/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:
30/08/2016

Gwerthusiad Cynllun Grant Sector Gwirfoddol 2013-15 Her Iechyd Cymru

Adroddiad cryno



Gwerthusiad Cynllun Grant Sector Gwirfoddol 2013-15 Her Iechyd Cymru

Adroddiad cryno

**Jenny Williams, Louise Scott, a Sophie Bratt, Ecorys
Pippa Anderson, Melanie Jones, a Thomas Winfield, Prifysgol
Abertawe**

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Janine Hale
Isadran Gwybodaeth ac Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6539

E-bost: Janine.Hale@wales.gsi.gov.uk

Crynodeb Gweithredol

Nod Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru (HCWVSGS) yw datblygu gallu a galluedd sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau sector gwirfoddol eraill er mwyn hyrwyddo iechyd a lles cynaliadwy drwy gefnogaeth ar gyfer gweithgareddau craidd a phrosiectau. Amcanion HCWVSGS 2013-2015 oedd:

- Dylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen i bobl fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd.
- Cefnogi unigolion a grwpiau i wneud yr hyn a allant i wella eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.

Hyrwyddo negeseuon iechyd a lles yn effeithiol.

Cyllidwyd chwe phrosiect drwy raglen HCWVSGS 2013-2015 fel yr amlinellir yn Nhabl 1.

Tabl 1 HCWVSGS 2013-2015: prosiectau a gyllidwyd

Sefydliad	Enw'r prosiect	Thema allweddol
Mind Cymru	Iechyd Meddwl Amenedigol a Gwytnwch - Prosiect Cefnogaeth Gynnar	Hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach ar gyfer menywod beichiog
Sustrans Cymru	Prosiect Ysbytai Iach.	Cefnogi creu menter Ysbytai Iach
Sustrans Cymru	Prosiect Prifysgolion Iach.	Cefnogi creu menter Prifysgolion Iach
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	Prosiect Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach.	Cefnogi unigolion i ddilyn ffyrdd o fyw iachach ac annog pobl i ymrthod ag ymddygiadau sy'n peri risg
Ymddiriedolaeth y Tywysog	Prosiect Ieuenctid Egniol.	Cefnogi unigolion i ddilyn ffyrdd o fyw iachach ac annog pobl i ymrthod ag ymddygiadau sy'n peri risg
Gofal Canser y Fron	Prosiect Best Foot Forward.	Cefnogi unigolion i ddilyn ffyrdd o fyw iachach ac annog pobl i ymrthod ag ymddygiadau sy'n peri risg

1. Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Cynhaliwyd gwerthusiad HCWVSGS gan Ecorys, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Diben y gwerthusiad oedd llywio datblygiad HCWVSGS yn y dyfodol. Nod y gwerthusiad oedd penderfynu ar effeithiolrwydd HCWVSGS. Amcanion y gwerthusiad oedd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- I ba raddau mae cynllun 2013-2015 wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion fel yr amlinellir uchod?
- Pa ddylanwad / effaith, os o gwbl, gafodd y cynllun ar y sefydliadau, prosiectau, cymunedau a'r unigolion a gyfranogodd ynddo?
- Pa newidiadau, os o gwbl, sydd eu hangen er mwyn i'r cynllun fod mor effeithiol â phosibl?
- A yw'r cynllun wedi dylanwadu ar gynlluniau'r sefydliadau a gyfranogodd i gynnal y gweithgareddau prosiect y tu hwnt i'r cyfnod cyllido?¹

2. Dulliau gwerthuso

Defnyddiodd y gwerthuswyr y dulliau canlynol:

- Datblygwyd modelau rhesymeg a mapiau effaith er mwyn deall yn well y theori newid sy'n tanategu'r cynllun a'r prosiectau sy'n rhan ohono.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhanddeiliaid strategol ar ddechrau'r gwerthusiad.
- Cynlluniwyd holiaduron arolwg gan ddefnyddio graddfeydd safonol / cwestiynau a ddilyswyd lle bo hynny'n bosibl.
- Darparwyd cefnogaeth gwerthusiad parhaus i brosiectau, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu casglu a chofnodi data arolwg yn systematig mewn fformat a oedd yn addas i'w ddadansoddi.
- Cafodd adroddiadau cynnydd ac adroddiadau hunanwerthuso a gynhyrchwyd gan y prosiectau eu dadansoddi er mwyn canfod y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd.
- Ymgynghoriadau prosiect - cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda rheolwyr prosiect / deiliaid grant yn nhymor yr Hydref 2014 a chawsant eu hailadrodd yn nhymor yr Hydref 2015 er mwyn llywio'r adroddiad terfynol.
- Cyfweiliadau rheolwyr rhaglen - cynhaliwyd y rhain gyda rheolwyr rhaglen o Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015 ac ar ddiwedd mis Tachwedd 2015.
- Dadansoddiad economaidd - Prifysgol Abertawe a arweiniodd y dadansoddiad economaidd, a oedd yn ceisio meintoli cost lawn cyflenwi'r prosiect a'r ystod lawn o fanteision a gafwyd, gan ddefnyddio dull canlyniadau cost.
- Cynhaliwyd ymweliad astudiaeth achos gyda phob un o'r chwe phrosiect rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2015.
- Fe wnaeth Ecorys hefyd gyfweld â nifer o sefydliadau sector gwirfoddol a oedd yn rhan yn y rhaglen fel partneriaid neu a wnaeth elwa o gael hyfforddiant.

¹ Manyleb ar gyfer gwerthusiad Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru 2013-2015, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

3. Asesiad yn erbyn amcanion

Mae'r adroddiad terfynol yn rhoi asesiad o gynnydd y prosiect yn erbyn amcanion HCWVSGS 2013-2015, yn seiliedig ar yr ymgynghoriadau prosiect, astudiaethau achos a dadansoddiad hunanwerthuso. Mae crynodeb o'r casgliadau allweddol i'w gweld isod.

3.1 Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni nod datganedig y rhaglen, sef datblygu gallu a galluedd sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru i hyrwyddo gweithgareddau iechyd a lles sydd â photensial cynaliadwyedd, fel a ganlyn:

- Cynorthwyodd HCWVSGS 2013-2015 i gynyddu gallu sefydliadol mewn nifer o ffyrdd. Defnyddiodd rhai prosiectau eu grantiau i gynyddu gallu sefydliadol drwy gyllido swyddi newydd.
- Yn ogystal, cefnogodd HCWVSGS 2013-2015 sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol i weithio gyda sefydliadau gwirfoddol eraill, gan gynorthwyo'r sector i rannu arbenigedd.
- Hefyd cynorthwyodd HCWVSGS 2013-2015 i feithrin gallu o fewn y sector gwirfoddol drwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli.

3.2 Gwnaeth y prosiectau gynnydd da tuag at fodloni amcanion datganedig y rhaglen, fel a ganlyn:

Amcan Un: Dylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen i bobl fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd.

- Cynlluniwyd yr holl brosiectau er mwyn hysbysu pobl yn well, drwy wella eu gwybodaeth am ffyrdd o fyw iach a thrwy ddarparu gwybodaeth i alluogi pobl i wneud dewisiadau iach.
- Canolbwyntiodd rhai o'r prosiectau ar newid systemau; gweithio i wella'r amodau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl i fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd.

Amcan Dau: Cefnogi unigolion a grwpiau i wneud yr hyn a allant i wella eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.

- Fe wnaeth ystod o weithgareddau prosiect rymuso a galluogi unigolion i wella eu hiechyd eu hunain, drwy feithrin agwedd 'gallaf wneud' ymhlith cyfranogwyr.
- Nid oedd yr un o'r prosiectau wedi eu cynllunio'n benodol fel ymyriadau teulu cyfan, ond roedd rhai'n obeithiol y gallai eu cefnogaeth o bosibl gefnogi teuluoedd cyfranogwyr yn anuniongyrchol.

Amcan Tri: Cyfathrebu'r negeseuon 'gwell iechyd' yn effeithiol.

- Nododd yr holl brosiectau negeseuon allweddol i hyrwyddo 'gwell iechyd'. Datblygodd yr holl brosiectau a oedd yn darparu hyfforddiant i staff negeseuon clir sy'n cael eu cyfathrebu yn eu deunyddiau hyfforddiant.

4. Dylanwadau ac effeithiau a gyflawnwyd gan y rhaglen

4.1 Effaith ar sefydliadau sy'n cyfranogi a phrosiectau

- Roedd effeithiau ar sefydliadau partner yn glir ar y cam adrodd terfynol. Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn gobeithio prif ffrydio o leiaf rhai o'u gweithgareddau HCWVSGS. Cynorthwyodd y rhaglen i uwch-sgilio a chadw staff, gan alluogi sefydliadau i sicrhau ffynonellau cyllido amgen mewn rhai achosion.
- Dywedodd nifer o brosiectau fod cefnogaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi'r sefydliad hyrwyddo i ledaenu gwersi i gynulleidfaoedd polisi.

4.2 Mae'r effaith ar gymunedau ac unigolion a oedd yn cyfranogi, mewn perthynas â themâu allweddol y Cynllun, fel a ganlyn:

Thema Un: Hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach ar gyfer menywod beichiog, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd hwy ac iechyd eu teulu.

- Dim ond un o'r prosiectau a gomisiynwyd i weithio gyda'r grŵp targed hwn a chanolbwyntiwyd hwnnw ar gryfhau iechyd meddwl amenedigol. Cefnogodd y prosiect fenywod beichiog drwy ddatblygu cwricwlwm ac adnoddau iechyd meddwl amenedigol, hyfforddi ymarferwyr i gefnogi menywod beichiog a chynnal dosbarthiadau cefnogaeth ar gyfer menywod beichiog. Roedd gan rai o'r cyfranogwyr blant yn barod ac efallai bod y prosiect wedi effeithio'n anuniongyrchol ar iechyd eu teulu, ond nid oedd hwnnw'n amcan penodol i'r prosiect. Roedd y prosiect hefyd yn cael effaith ar lefel polisi a lefel strategol.

Thema Dau: Annog a chefnogi unigolion i ddilyn ffyrdd o fyw iach drwy annog gweithgaredd corfforol a diet cytbwys, ac annog pobl i ymwrthod ag ymddygiadau sy'n peri risg, megis ysmygu a goryfed, er mwyn lleihau nifer y rheini sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd (yn cynnwys clefyd coronaidd y galon a strôc), canser a diabetes.

- Fe wnaeth yr holl brosiectau hyrwyddo ffyrdd o fyw iach drwy annog gweithgaredd corfforol a bwyta'n iach, er bod llai o bwyslais ar hyn yn y prosiect a oedd yn canolbwyntio ar fenywod beichiog.
- Dangosodd dadansoddiad yr arolwg fod tuedd tuag at lefelau cynyddol o weithgaredd corfforol ac ymddygiadau bwyta'n iach ymhlith cyfranogwyr ar ddiwedd eu hymglymiad yn eu prosiect (o gymharu â'r hyn yr adroddwyd arno ar y dechrau). Fodd bynnag, nid oedd newid yn y lefelau bodlonrwydd bywyd yr adroddwyd arnynt.
- Fodd bynnag, awgrymodd y dystiolaeth ansoddol bod y rhaglen yn cefnogi pobl yn dda o ran themâu gweithgaredd corfforol, bwyta'n iach a lles meddwl. Adroddwyd bod llai o lwyddiant mewn perthynas â themâu ysmygu a goryfed.

Thema Tri: Cefnogi creu menter ysbytai iach neu fenter colegau a phrifysgolion iach.

- Comisiynwyd un sefydliad i weithio ar y themâu ysbytai iach a phrifysgolion iach. Ar y dechrau adroddodd y rheolwr prosiect ar gyfer y ddau brosiect hwn anawsterau sylweddol mewn cael prifysgolion ac ysbytai i gyfranogi yn y prosiectau. Priodolodd y rheolwr prosiect hyn yn bennaf i faterion ceidwad porth o fewn y sefydliadau perthnasol, a llwyth gwaith presennol personél perthnasol o fewn y sefydliadau hynny. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd da gyda'r ddau brosiect ym mlwyddyn olaf y cyllido.

Diwygiwyd y ddau brosiect er mwyn canolbwyntio'n bennaf ar les staff a chafwyd canlyniadau cadarnhaol, yn arbennig o ran ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.

4.3 Mae'r effaith ar bolisi, mewn perthynas â themâu allweddol y Cynllun fel a ganlyn:

- Roedd nifer o brosiectau wedi llywio datblygiadau polisi erbyn diwedd y rhaglen, yn arbennig Mind Cymru, Sustrans Cymru ac Ymddiriedolaeth y Tywysog

5. Dysgu ar gyfer cynllunio rhaglen yn y dyfodol

Nodwyd nifer o wersi drwy ymgynghori â rheolwyr rhaglen, deiliaid grant, partneriaid cyflenwi a chynrychiolwyr eraill sector gwirfoddol a chymunedol:

- Dylid darparu canllawiau clir i ymgeiswyr ynglŷn â gofynion monitro a hunanwerthuso ar lefel prosiect a chydweithio gyda gwerthuswyr allanol ar gyfer y gwerthusiad ar lefel rhaglen. Byddai hyn yn cynorthwyo prosiectau i weld y cysylltiad rhwng monitro, hunanwerthuso a gwerthuso allanol, ac i ddeall sut y gall monitro ar lefel prosiect lywio a chefnogi gweithgaredd gwerthuso.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cefnogaeth yn ystod y broses gais er mwyn datblygu modelau rhesymeg a mapiau effaith i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cynllunio'n gadarn ac y gellir mesur effeithiau.
- Dylai gwerthusiad lefel rhaglen orfod dangos aliniad gyda gweithgaredd gwerthuso lefel prosiect (allanol neu hunanwerthuso). Byddai hyn yn cynorthwyo i osgoi dyblygu a lleihau'r potensial ar gyfer lludded ymchwil.